CYFARFOD: **Pwyllgor Pensiynau**

DYDDIAD: **16 Medi 2024**

TEITL: **Cynhadleddau Pensiynau**

PWRPAS**:** **I gymeradwyo rhestr o gynadleddau 2025**

AWDUR: **Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi**

---

## 1. Cyflwyniad

Mae aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, Bwrdd a swyddogion yn cael cyfle i fynychu nifer o gynadleddau ar sail cylchdro yn ystod y flwyddyn er mwyn ehangu ein gwybodaeth a trafod materion cyfredol.

## 2. Calendr Cynadleddau 2025

Trefnir nifer o gynadleddau sy'n ymwneud â phensiynau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae perthnasedd y cynadleddau i Gronfa Bensiwn Gwynedd ac aelodau'r Pwyllgor, Bwrdd a swyddogion yn amrywio. Er mwyn cynnal perthnasedd, gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo rhestr bob blwyddyn o gynadleddau perthnasol y gall aelodau a/neu swyddogion eu mynychu. Mae'r rhestr yn seiliedig ar berthnasedd cynnwys hanesyddol y digwyddiadau hyn.

Cynigir bod cynadleddau 2025 y gall aelodau a swyddogion eu mynychu fel a ganlyn:

**i)** **Cynhadledd Llywodraethu CPLlL, Bournemouth**
Dydd Iau, 30 Ionawr i Ddydd Gwener, 31 Ionawr 2025

**ii)** **Seminar Buddsoddi LGC, Carden Park**
Dydd Iau, 20 Mawrth i Ddydd Gwener, 21 Mawrth 2025

**iii)** **Cynhadledd pŵlio CPLlL, Belfry**
Dydd Mawrth, 6ed Mai i Ddydd Mercher 7 Mai 2025

**iv)** **Fforwm Buddsoddi Strategol LAPF, The Grove**
Dydd Llun, 30 Mehefin i Ddydd Mawrth, 1af Gorffennaf 2025

**v)** **Cynhadledd Buddsoddi LGC**
Medi 2025 (dyddiadau a lleoliad i'w gadarnhau)

**vi)** **Cynhadledd LAPFF**
Rhagfyr 2025 (dyddiadau a lleoliad i'w gadarnhau)

Caniateir hyd at ddau aelod i bob digwyddiad. Os daw swyddogion neu aelodau i wybod am gynadleddau defnyddiol nad ydynt yn ymddangos ar y rhestr gymeradwy,

cynhelir asesiad a rhoddir ystyriaeth i ychwanegu'r digwyddiad hwnnw at y rhestr yn y dyfodol os yn briodol.

## 3. Argymhelliad

Gofynnir i aelodau gymeradwyo rhestr 2025 o gynadleddau.